

Rhaglen Waith y Gwasanaeth Adfywio Cymunedol – Ardal Dwyfor

Swyddog: Alys Lloyd Jones

Wedi diweddarau: Chwefror 2017

Ymateb i Gyfle

Prosiect Strategol/ Cyfle Lleol	Enw'r Mudiad (a chyfeiriad e bost)	Teitl y prosiect	Wedi Gwneud	I'w Wneud	Mesuryddion Perfformiad
Cyfle Lleol	Cymydmaen Cyf <a href="mailto:cynnyrchllyn@gmail.com">cynnyrchllyn@gmail.com</a>	Marchnad Cynnyrch Llŷn	Ychwanegu sylwadau i geisiadau ariannol am brosiect newydd i wella cyfleoedd i ddsbarthu a hyrwyddo cynnyrch lleol.	Cyfarfod a rhoi cymorth gyda cheisiadau ariannol ar gyfer y prosiect	Myn i Was=1 Incwm new=1 Swyddi=0.6 Diog/creu gwas =1
Cyfle Lleol	O Ddrws i ddrws <a href="mailto:oddrwsiddrws@yahoo.co.uk">oddrwsiddrws@yahoo.co.uk</a>	Datblygu gwasanaeth bws arfordirol o gwmpas atyniadau twristiaeth dros yr Haf a chysylltu gyda'r Llwybr arfordirol ac atyniadau treftadaeth.  Datblygu'r gwasanaeth craidd; gwasanaeth cludiant cymunedol	Wedi mynychu cyfarfod gwerthuso a chyfarfodydd partneriaid Bws Arfordir Llŷn. Hyrwyddo'r gwasanaeth drwy blethu gyda phrosiectau eraill sy'n cael eu datblygu ym Mhen Llŷn.  Wedi cyfeirio'r mudiad at ffynonellau ariannol amrywiol.	Cefnogi'r mudiad hefo ceisiadau ariannol ar gyfer cynnal a datblygu'r gwasanaeth yn 2017.	Myn i Was=1 Incwm new=1 Swyddi=0.8 Diog/creu gwas =1
Cyfle Lleol	Prosiect Plas Carmel <a href="mailto:alundwyros@btinternet.com">alundwyros@btinternet.com</a>	Cynllun i adfer Capel, Tŷ Capel a hen siop gan gyfuno hanes, diwylliant a'r amgylchedd lleol	Cais Cam 1 am £58,234 i Gronfa Dreftadaeth y Loteri am waith datblygol, ariannu Cyd-gysylltydd rhan amser ac ail do'r capel a'r tŷ, wedi bod yn llwyddiannus [Rhagfyr 2016]. Ceisiadau am arian cyfatebol i AHNE, CBC a CADW hefyd wedi bod yn	Cefnogi'r Pwyllgor gyda'r gweithgareddau'r cyfnod datblygu a chydweithio gyda'r ymgynghorwyr pensaernïol a dehongli. Cefnogi gyda chyflwyno cais llawn i'r RCDF.	Myn i Was=1 Incwm new=1 Diog/creu gwas =1

			Ilwyddiannus. Datganiad o ddiddordeb Ilwyddiannus wedi'i gyflwyno i RCDF.		
<b>Cyfle Lleol</b>	<b>Amgueddfa Forwrol Llŷn</b> <a href="mailto:meinir.pj@tiscali.co.uk">meinir.pj@tiscali.co.uk</a>	<b>Canolfan Dreftadaeth</b> <b>Amgueddfa Forwrol Llŷn</b>	Wedi cyfeirio at ffynonellau ariannol amrywiol. Wedi rhoi sylwadau i Datganiad o ddiddordeb Rhaglen Datblygu Cymunedau Gwledig a gyflwynwyd mis Hydref.	Cefnogi'r mudiad gyda cheisiadau ariannol a thrafodaethau gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Cefnogi gyda chyflwyno cais llawn i'r Rhaglen Datblygu Cymunedau Gwledig.	Myn i Was=1 Diog/creu gwas =1
<b>Cyfle Lleol</b>	<b>Hafod Ceiri</b> <a href="mailto:sianelen@live.co.uk">sianelen@live.co.uk</a>	<b>Canolfan Mentergarwch</b> <b>Hafod Ceiri</b>	Wedi cefnogi'r Pwyllgor gyda chais CAT 2 i Gronfa'r Loteri Fawr tuag at ail ddatblygu'r Capel sy'n gradd II* yn Ganolfan Mentergarwch. Wedi cwrdd ar y safle gyda Swyddog Datblygu, Cronfa Dreftadaeth y Loteri. Datganiad o ddiddordeb wedi'i gyflwyno i Rhaglen Datblygu Cymunedau Gwledig.	Cefnogi'r pwyllgor gyda cheisiadau arian cyfatebol.	Myn i Was=1 Incwms new=1 Diog/creu gwas =1
<b>Cyfle Lleol</b>	<b>Cymdeithas Masnachwyr a</b> <b>Thwristiaeth Abersoch a'r Cylch</b> <a href="mailto:helen@presentthoughts.co.uk">helen@presentthoughts.co.uk</a>	<b>Wedi deillio o'r Cynllun</b> <b>gweithredu ar gyfer</b> <b>prosiectau lleol.</b>	Cynllun gweithredu Abersoch wedi'i ddiweddarau a'i gylchredu.	Aros i glywed ymhellach	Diog/creu gwas =1 Incwms new=1 Swyddi=1
<b>Prosiect</b> <b>Strategol</b>	<b>Plas Heli</b> <a href="mailto:plasheli.david@gmail.com">plasheli.david@gmail.com</a>	<b>Digwyddiadau a</b> <b>gweithgareddau awyr</b> <b>agored</b>	Cais 3 blynedd i Rhaglen Pawb a'i Le am £249,899 wedi bod yn Ilwyddiannus ar gyfer swyddog datblygu a swyddog marchnata. Hefyd yn ariannu rhaglen o weithgareddau	Cadw mewn cysylltiad a'r swyddogion.	Myn i Was=1 Incwms new=1 Swyddi=1.7 Diog/creugwas =1

			blasu a hyfforddiant awyr agored, a chymunedol sy'n darparu cyflogaeth 40 diwrnod i hyfforddwyr lleol. Wedi cydweithio ar ddatblygu holiaduron monitro ar gyfer cyfranogwyr.		
<b>Cyfle Lleol</b>	<b>Swyddfa CAB Pwllheli</b> <b><a href="mailto:manager@cabgwynedd.cabnet.org.uk">manager@cabgwynedd.cabnet.org.uk</a></b>	<b>Ail ddatblygu Canolfan Cynghori Pwllheli, llawr gwaelod a chynllun llawr cyntaf ar gyfer datblygu gwasanaeth llinell gymorth</b>	Rhoi sylwadau ar geisiadau llawn i Rhaglen Datblygu Cymunedau Gwledig. Cais cyfochrog wedi'i gyflwyno i Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol gan y mudiad. Pe byddai'r geisiadau yn llwyddiannus bydd cyfleon gwaith a gwirfoddoli yn cael eu creu.	Aros am benderfyniad gan Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol a Rhaglen Datblygu Cymunedau Gwledig.	Myn i Was=1 Diog/creu gwas =1
<b>Cyfle Lleol</b>	<b>Y Ganolfan Porthmadog</b> <b><a href="mailto:iwanap@hotmail.com">iwanap@hotmail.com</a></b>	<b>Cynllun gwelliannau yn cynnwys sinema newydd, cyfleusteraffi a lleoliad ar gyfer gweithgareddau addysgol ynghyd â mesuriadau arbed ynni</b>	Cefnogi gyda Datganiad o Ddiddordeb i Rhaglen Datblygu Cymunedau Gwledig a oedd yn llwyddiannus. Wedi cysylltu a'r Cadeirydd nifer o weithiau i gynnig cymorth, ond heb dderbyn ymateb yn ddiweddar,	Aros i glywed gan y grŵp.	Myn i Was=1 Diog/creugwas =1
<b>Cyfle Lleol</b>	<b>AnturAelhaearnLlanaelhaearn</b> <b><a href="mailto:lynda.cox@llanaelhaearn.com">lynda.cox@llanaelhaearn.com</a></b>	<b>Datblygu Capel Babell fel adnodd lleol</b>	Wedi cyfarfod aelodau o'r Pwyllgor i drafod cynlluniau posib. Wedi cynghori'r Pwyllgor i'r cynlluniau i ffitio gyda chynlluniau eraill o fewn yr ardal ac sydd ar y gweill, er mwyn osgoi dyblygu. Wedi eu	Y Pwyllgor i ymgynghori'n lleol ar y prosiectau.	Myn i Was=1

			cyngkori hefyd i ymgynghori yn eang gyda'r gymuned er mwyn sicrhau perchnogaeth a chael adborth mwy diweddar ar eu cynlluniau ar gyfer cefnogi unrhyw geisiadau ariannol yn y dyfodol. Wedi rhoi arweiniad ar gamau pellach.		
<b>Cyfle Lleol</b>	<b>Breuddwydion Bro Madog</b> <a href="mailto:angharadab@hotmail.com">angharadab@hotmail.com</a>	<b>Parc Pawb, Bodawen, Porthmadog</b>	Grŵp yn gweithio ar gynllun i ail datblygu cae chwarae Bodawen. Wedi cyfarfod hefo'r grŵp a'r Pensaer. Materion wedi codi yn sgil cynlluniau'r Grid Cenedlaethol i ail osod y gwifrau o dan ddaear sy'n effeithio ar un rhan o'r safle. Y grŵp yn ymgynghori i dderbyn adborth ar y cynllun.	Cefnogi'r grŵp hefo ceisiadau grantiau.	Myn i Was=1
<b>Cyfle Lleol</b>	<b>Ymddiriedolaeth Ynys Enlli</b> <a href="mailto:RichardJamesFarmer@gwynedd.gov.uk">RichardJamesFarmer@gwynedd.gov.uk</a>	<b>Gwarchod treftadaeth Ynys Enlli</b>	Wedi edrych ar ffynonellau posib i wella isadeiledd, mynediad, creu cyfleoedd / mentrau lleol. Wedi bwydo sylwadau cychwynol i gais Gronfa Dreftadaeth y Loteri.	Dim angen cefnogaeth pellach ar hyn o bryd	Myn i Was=1 Diog/creugwas =1
<b>Cyfle Lleol</b>	<b>Canolfan Felin Fach</b> <a href="mailto:christinefelinfach@gmail.com">christinefelinfach@gmail.com</a>	<b>Prosiect i ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach</b>	Cyfeirio at grantiau posib ar gyfer prosiectau datblygol.	Cyfarfod a rhoi cymorth gyda cheisiadau ariannol ar gyfer y prosiect	Myn i Was=1 Diog/ creu gwas =1
<b>Cyfle Lleol</b>	<b>Canolfan Gymdeithasol Golan</b> <a href="mailto:enidtalafon@fsmail.net">enidtalafon@fsmail.net</a>	<b>Gwelliannau allanol</b>	Wedi cefnogi'r pwyllgor gyda cheisiadau amrywiol. Cynnig grant £10,000 wedi'i dderbyn	Cefnogaeth pellach gyda gwedd 2 o'r gwelliannau allanol.	Myn i Was=1 Diog/creu gwas =1

			gan Cist Gwynedd ac arian cyfatebol wedi'i ddenu o ffynonellau amrywiol. Bydd y gwaith yn cael ei weddu i gydfynd a'r cyllid sydd ar gael.		
<b>Prosiect Strategol</b>	<b>Academi Hwyllo Genedlaethol a Chanolfan Ddigwyddiadau Pwllheli</b>	<b>Caban Plas Heli, cynllun dilynol i greu llety byncws fforddiadwy ac adnoddau i grwpiau, teuluoedd ac ymwelwyr drwy addasu'r hen glwb hwyllo ym Mhwllheli</b>	Y mudiad wedi derbyn gwahoddiad i gyflwyno cais cam 2 i Gronfa Cymunedau Arfordir. Rhannu gwybodaeth am ffynonellau ariannol.	Rhoi cefnogaeth gyda cheisiadau ariannol.	Myn i Was=1 Diog/creu gwas =1
<b>Cyfle Lleol</b>	<b>Cymdeithas Celfyddydau Cricieth <a href="mailto:elizabethgeorge61@hotmail.com">elizabethgeorge61@hotmail.com</a></b>	<b>Ffair Farddoniaeth fel is-ddigwyddiad i Ffair Fwyd yn ystod Gŵyl Cricieth, gyda nifer o weithgareddau barddonol i'r gymuned</b>	Cais grant bychain i Gronfa Buddsoddi Cymunedol wedi bod yn llwyddiannus	Dim angen cefnogaeth pellach	Incwm new=1
<b>Cyfle Lleol</b>	<b>Cylch Meithrin Porthmadog <a href="mailto:cylchmeithrinport@yahoo.co.uk">cylchmeithrinport@yahoo.co.uk</a></b>	<b>Cyfleuster pwrpasol ar gyfer y Cylch Meithrin ar safle Ysgol Eifion Wyn.</b>	Wedi mynychu cyfarfod yn Ysgol Eifion Wyn a thrafod blaenoriaethau posib gyda addasiadau mewnol yr hen uned ABC. Wedi rhoi cefnogaeth gyda'r ffurflenni grant. Yn dilyn trafodaethau hefo'r Aelodau lleol mae'r Adran Addysg wedi penderfynu i gyfrannu arian tuag at yr addasiadau mewnol.	Parhau i gadw mewn cysylltiad a chefnogi'r Cylch Meithrin. Rhoi cymorth i chwilio am arian ar gyfer gweddill o'r gwelliannau sydd eu hangen.	Myn i Was=1 Diog/creu gwas =1
<b>Cyfle Lleol</b>	<b>Canolfan Morfa Nefyn</b>	<b>Datblygu adnoddau y cae chwarae ar gyfer grŵp oedran plant hŷn</b>	Wedi cynnig sylwadau ar gais grant i Cist Gwynedd. Cynnig grant £10,000 wedi'i dderbyn gan Cist Gwynedd.	Y Pwyllgor yn disgwyl am gadarnhad o'r arian cyfatebol	Myn i Was=1

Cyfle Lleol	Cyngor Cymuned Buan	Gwelliannau allanol i lain y pentref i gynnwys cysgodfan / arhosfan bws a chyrchfan cymunedol.	Wedi cwrdd gyda chynrychiolaeth o'r Cyngor Cymuned a chynrychiolwyr o'r grŵp cymunedol i ystyried y ffordd orau i godi arian a chyfrifoldebau sydd ynghlwm a'r prosiect. Wedi awgrymu i'r Cyngor Cymuned arwain ar y prosiect a'r grŵp sydd wedi dod ynghyd, i gefnogi'r gweithgareddau a chael mewnbwn lleol i'r cynllun.	Aros i glywed ymhellach.	Myn i Was=1
Cyfle Lleol	Hendregarreg Cyf <a href="mailto:hendregarreg@gmail.com">hendregarreg@gmail.com</a>	Datblygu Eglwys San Siôr, Trefor yn adnodd sy'n dehongli hanes lleol sy'n cynnwys chwarel ithfaen fydd yn gynladwy i'r dyfodol.	Wedi cydweithio gyda Uned AHNE. Y grŵp yn bwriadu cyflwyno cais i Gronfa Datblygu Cynladwyedd, AHNE tuag at astudiaeth dichonolrwydd.	Rhoi cefnogaeth pellach fel bo'r angen.	Myn i Was=1 Incwm new=1
Cyfle Lleol	Clwb Pêl droed Porthmadog <a href="mailto:dafyddwynjones@hotmail.co.uk">dafyddwynjones@hotmail.co.uk</a>	Prosiect Canolfan Sgiliau	Wedi cwrdd gyda chynrychiolwyr o'r clwb a darparwyr hyfforddiant i drafod y prosiect.	Rhoi cefnogaeth gyda'r cais ariannol fel bo'r angen.	Diog/creu gwas =1
Cyfle Lleol	Canolfan y Babell, Llanaelhaearn <a href="mailto:lynda.cox@llanaelhaearn.com">lynda.cox@llanaelhaearn.com</a>	Uwchraddio'r system wresogi / goleuadau	Gwneud ymholiadau o ran grantiau posib.	Rhoi cefnogaeth gyda cheisiadau ariannol.	Diog/creu gwas =1

Ymateb i Newid

Categori o Newid	Enw'r Mudiad / Gwasanaeth (a chyfeiriad e bost)	Teitl y prosiect	Wedi Gwneud	I'w Wneud	Mesuryddion Perfformiad
Adrannol	Llyfrgell Nefyn	Darpariaeth llyfrgell cymunedol	Wedi cyfarfod gyda chynrychiolwyr Cyngor Tref Nefyn a bod yn bwynt cyswllt a rhannu gwybodaeth. Wedi trefnu cyfarfod gyda Llyfrgellydd Cymunedol Conwy i rannu gwybodaeth gyda Cyngor Tref Nefyn a Chyngor Cymuned Bethesda.	Parhau yn bwynt cyswllt.	Myn i Was=1 Diog/creu gwas =1
Adrannol	Amgueddfa Lloyd George, Llanystumdwy	Trosglwyddo'r Amgueddfa	Wedi cyfarfod gyda chynrychiolwyr Cyfeillion Amgueddfa Lloyd George gyda Nest Thomas, Rheolwr Amgueddfeydd ac Orielau. Hefyd wedi mynychu cyfarfod gyda Swyddog, Cronfa Drefadaeth y Loteri.	Rhoi Cefnogaeth gyda chais ariannol i Gronfa Dreftadaeth y Loteri fel bo'r angen.	Myn i Was=1 Diog/creu gwas =1
Adrannol	Neuadd Dwyfor	Her Gwynedd – arbedion ac edrych ar opsiynau i wella hyfywdra'r adnodd cymunedol.	Mynychu cyfarfod Is-grŵp Tasg Neuadd Dwyfor. Wedi llunio tabl o ffynonellau ariannol posib i Anwen Davies, Rheolwr Cyswllt Mentrau Cymdeithasol ar gyfer ei gylchredu i'r grŵp.	Aros i glywed.	Myn i Was=1 Diog/creu gwas =1
Cyngor Gwynedd  <i>*Cefnogaeth gan Iestyn Pritchard (Swyddog Adfywio Trefnidiaeth Ysgolion)</i>	Trefniadaeth Ysgolion Ysgol Rhoshirwaun Iwan Hughes Clerc Cyngor Cymuned Aberdaron <a href="mailto:iwan.hughes2@btinternet.com">iwan.hughes2@btinternet.com</a> 07899954031	Ôl ddefnydd safle Ysgol Llidiardau, Rhoshirwaun.	Penderfyniad wedi ei wneud i werthu'r safle i Grŵp Cynefin ar gyfer datblygiad tai fforddiadwy – yn unol a dymuniad Cyngor Cymuned Aberdaron. Yr Adrannau Eiddo a Chyfreithiol yn symud hyn ymlaen.	Oediad ar hyn o bryd o safbwynt y prynwr yng nghyswllt addasrwydd y safle.	

**Mesuryddion y Gwasanaeth Adfywio Cymunedol (16/17)****Ardal: Dwyfor**

<b>Cyf</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Nifer</b>
	Nifer y brosiectau yn y rhaglen waith	26
	Nifer y prosiectau adfywio cymunedol sy'n cefnogi cymunedau i ymateb i newid	4
	Nifer y prosiectau adfywio cymunedol sy'n cefnogi cymunedau i ymateb i gyfle strategol	2
	Nifer y prosiectau adfywio cymunedol sy'n cefnogi cymunedau i ymateb i gyfleon lleol	20
AC08	% y prosiectau adfywio cymunedol a gefnogir sy'n cefnogi cymunedau i ymateb i newid	15%
AC09	% y prosiectau adfywio cymunedol a gefnogir sy'n cefnogi cymunedau i ymateb i gyfle (lleol a strategol)	85%
	Nifer y brosiectau cefnogwyd yn rhaglen waith 2012/13	34
	Nifer y prosiectau adfywio a gefnogir sy'n hyfyw / gynladwy ymhen 3 blynedd	27
	% y prosiectau adfywio a gefnogir sy'n hyfyw / gynladwy ymhen 3 blynedd	79%
	% y brosiectau a gefnogir sydd o fewn yr ardaloedd Cym 1af	/
AC10	% y brosiectau a gefnogir sydd o fewn y cymunedau 25% uchaf Parth Mynediad at Wasanaeth	80%
AC11	Nifer y mentrau a gefnogir sy'n cynyddu / datblygu ffrwd incwm newydd / ychwanegol	8
AC12	Nifer o swyddi sy'n cael eu creu trwy'r prosiectau	3.1
AC13	Nifer o brosiectau sy'n datblygu gwasanaeth newydd/ diogelu gwasanaeth	16